

# SL(5)670 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd planhigion. Mae Rhan 2 yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud ag iechyd planhigion. Mae Rhan 3 yn cynnwys dirymiad.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ceir gofyniad o dan baragraff 4(a) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch rheoliadau sydd i ddod i rym cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu. Daw Rhan 1 a Rhan 3 o'r rheoliadau hyn i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Yn unol â'r gofyniad hwn, ymgynghorwyd â'r Ysgrifennydd Gwladol mewn llythyr ar wahân ar 20 Tachwedd 2020.

### **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**



Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi ac yn diwygio rheolau cymhleth a manwl ar iechyd planhigion. Nid ydym wedi gallu deall y rhesymeg dros rai o'r newidiadau, yn enwedig newidiadau i ffioedd amrywiol o dan reoliadau 2(7) a 2(8). Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru esbonio'n fras pam mae'r ffioedd penodol hyn yn cael eu hepgor o Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swydddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 sy'n rhoi effaith i Reoliad (UE) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau diogelu yn erbyn plâu planhigion ac agweddau ar iechyd planhigion yn Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swydddogol. Maent hefyd yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018.

Bydd y Rheoliadau hyn a Rheoliadau'r UE yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

### Craffu ar Rinweddau

#### Pwynt 2

Mae'r Pwyllgor yn ceisio esboniad am y rheswm dros hepgor rheoliad 6A (tatws sy'n tarddu o Libanus: ffi) a'r cofnodion sy'n ymwneud â Citrus, Mangifera a Passiflora yn y tabl yn Atodlen 2 (ffioedd arolygu mewnforio: cyfraddau gostyngol) i Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 ('y Rheoliadau Ffioedd') a wneir gan reoliadau 2(7) a 2(8) o Reoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

Mae rheoliad 6A o'r Rheoliadau Ffioedd yn adlewyrchu Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1614 sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymu darpariaethau penodol yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC o ran tatws, ac eithrio tatws a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o ranbarthau Akkar a Bekaa yn Libanus. Gan fod tatws wedi eu diogelu i lefel uwch yn y DU ni ddefnyddiwyd y rhanddirymiad, ac felly, nid yw'n cael ei gadw.

Mae'r cofnodion sy'n ymwneud â Citrus, Mangifera a Passiflora yn y tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Ffioedd yn arwydd fod cynydau a dyfir yn yr UE ac sy'n berthnasol iddi wedi eu diogelu. Cânt eu hepgor am fod deddfwriaeth ddomestig yn cael ei diwygio i ganolbwyntio'n fwy ar y risgiau i gynydau a dyfir ym Mhrydain Fawr ac sy'n berthnasol iddi.

Mae Llywodraeth y DU yn cynnig darpariaethau cyfatebol, a gellir dod o hyd iddynt yn rheoliad 4 o Reoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 drafft (darperir dolen iddynt isod er hwylustod i'r Pwyllgor).

<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348214949/regulation/4>



## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod a nodwyd a hefyd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

**Legislation, Justice and Constitution Committee**